

Digimap for Schools

O ble mae Ilaeth yn dod?

Paula Owen

Adnodd Dysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 1-2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap ar gyfer Adnoddau Daearyddiaeth Ysgolion

Canllaw i athrawon yw'r adnoddau hyn i ddangos i'r dosbarth cyfan neu i gyfarwyddo myfyrwyr unigol yn ôl y galw. Mae pob gweithgaredd yn cynnwys nifer o syniadau y gallwch eu teilwra i gwrdd ag anghenion eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys taflenni gwaith i'w dosbarthu'n uniongyrchol i'r disgyblion.

Teitl: O ble mae llaeth yn dod?

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 1-2	Bwyd a ffermio, adnoddau a siopau	Gwledig, fferm laeth, Gwlad yr Haf.
Gwybodaeth	Dod o hyd i leoedd gan ddefnyddio codau post a chwiliadau gair / ychwanegu marcwyr a'u labelu / plotio a marcio llwybrau syml / gwybod am rai o'r ffyrdd mae llaeth yn teithio o'r fferm i'r siop.	
Cysylltu â'r cwricwlwm (Lloegr)	Deall agweddau allweddol ar ddaearyddiaeth ffisegol a dynol, gan gynnwys dosbarthu adnoddau naturiol, gan gynnwys bwyd.	
Cysylltu â'r cwricwlwm (Cymru)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Defnyddio a chynhyrchu mapiau syml er mwyn dod o hyd i leoedd a chanfod ble mae un lle mewn perthynas â lleoedd eraill. Daearyddiaeth: adnabod a disgrifio nodweddion naturiol a dynol.	
Cwricwlwm yr Alban dros Ragoriaeth	Deilliannau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lle a'r Amgylchedd:1-13b, 2-14a, 2-12a	

Gweithgaredd

Mae'r gweithgaredd hwn yn archwilio o ble mae llaeth yn dod a beth sy'n digwydd iddo ar ôl gadael y fuwch. Bydd y disgyblion yn archwilio lleoliad gwledig a'r dirwedd sy'n cefnogi ffermio llaeth cyn mapio'r llwybr y mae'r llaeth yn ei gymryd o'r cae i'r parlwr godro, i'r ffatri laeth ac ymlaen i'r siopau. Mae yna dair rhan i'r gweithgaredd hwn, felly mae'n bosibl iddo ffurfio rhan o bwnc gwaith dros nifer o ddiwrnodau neu wythnosau. Yn ogystal, mae'n cysylltu'n effeithiol â gwaith maes lleol er mwyn archwilio un ai fferm leol a / neu archfarchnad / siop.

Cyflwyniad

Mae'r diwydiant llaeth yn gwneud cyfraniad pwysig i ddeiet poblogaeth Prydain. Mae ffermwyr Prydain yn cynhyrchu oddeutu un ar ddeg biliwn litr o laeth bob blwyddyn; mae hynny'n ddigon i lenwi 4,500 pwll nofio Olympaidd. Gwerthir pum biliwn litr fel llaeth tra bod oddeutu chwe biliwn litr o laeth yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu cynnyrch llaeth arall, er enghraifft caws, menyng a llaeth sych.

Ffynhonnell: Sefydliad Maetheg Prydain (2011)

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Mae yna fwy o wartheg ym Mhrydain na sydd yna o bobl ym Mirmingham, Lerpwl a Manceinion ar y cyd, ac mae gan wartheg llaeth basportau! Er hynny, nid oes gan nifer o blant unrhyw syniad o'r pethau mwyaf sylfaenol am y llaeth maen nhw'n ei weld ar silffoedd archfarchnadoedd neu'n ei arllwys ar ei grawnfwyd. Gyda chymorth mapiau manwl *Digimap for Schools*, mae plant yn gallu dechrau gweld o ble mae'r llaeth yn dod a'r broses sy'n dod â llaeth i'n cartrefi ni.

Dyma stori llaeth o un Broadstone Farm, mewn lle o'r enw Middle Chinnock yng Ngwlad yr Haf. Ar y fferm organig hon, mae gyr o wartheg yn cynhyrchu oddeutu 7,000 litr o laeth bob dydd. Mae un fuwch yn gallu cynhyrchu hyd at 60 litr o laeth bob dydd.

Mae'r gwartheg yn pori yn y caeau yn ystod misoedd yr haf ac yn dod i mewn i'r ysguboriau yn y gaeaf. Ddwywaith y dydd, maen nhw'n mynd i'r parlwr godro i gael eu godro. Wedyn, mae'r llaeth yn cael ei gadw mewn tanc mawr tan i'r lori laeth gyrraedd bob dydd i fynd â'r llaeth i'r ffatri laeth leol yn Roundham, lle mae'n cael ei brosesu a'i roi mewn poteli plastig. Yna, mae'r cynhwyswyr llaeth hyn yn cael eu labelu a'u dosbarthu gan lorïau i siopau ac archfarchnadoedd.

Prif Weithgaredd

Rhan 1.

Dewch o hyd i'r hyn mae'r plant eisoes yn ei wybod am laeth a sicrhewch fod gennych litr o laeth wrth law i ddangos iddynt. Petai'r litr o laeth ond yn gallu adrodd ei hanes ei hun ac o ble y mae wedi dod! Dyma stori litr o laeth organig wedi'i gynhyrchu ar fferm yng Ngwlad yr Haf.


- Ymha sir ydych chi'n byw?
- Ydych chi'n gwybod ble mae Gwlad yr Haf?

Tasgau

- 1 Agorwch Digimap for Schools. Defnyddiwch flwch pori a mewnbynnu 'Chinnock' ynddo. Heb symud y map, defnyddiwch y bar graddfa i symud allan mor bell ag y gallwch i Lefel 1. Yna, yn raddol, closiwch at y map, un lefel ar y tro, tan eich bod yn gweld 'Gwlad yr Haf'. Ym mha ran o Brydain mae Gwlad yr Haf? (De-orllewin Lloegr)
- 2 Parhewch i glosio tan rydych yn dod o hyd i bentrefi East Chinnock, West Chinnock a Middle Chinnock. Middle Chinnock yw'r pentref rydych chi'n chwilio amdano. Pam ydych chi'n meddwl ei fod yn cael ei alw'n Middle Chinnock?
- 3 Cliciwch ddwywaith ar Middle Chinnock gan barhau i glosio tan eich bod yn dod o hyd i Broadstone Farm. Yna, cliciwch ddwywaith ar y lle hwn tan eich bod wedi closio hyd at Lefel 12, mor bell ag y gallwch. Beth allwch chi ei weld? Cliciwch ar y map arolwg er mwyn ceisio adnabod yr un nodweddion ar y map hwn.

Digimap for Schools


<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



4 Agorwch a defnyddiwch yr Allwedd i'ch helpu chi i adnabod a labelu:

- Adeiladau fferm
- Arwyneb dynol
- Arwyneb naturiol

Agorwch y bar offer nodiadau (*Annotations Toolbar*) a dewis 'Place Label' cyn clicio ar y map ble hoffech chi osod eich label.




Ydych chi'n gallu ateb y cwestiynau hyn?

- Pa liw ar y map sy'n dangos lle mae'r gwartheg yn pori?
- Ym mha rannau o'r fferm mae'r gwartheg, o bosibl, yn cael eu godro?
- Yn eich barn chi, pam fod ardal mor eang o lain caled dynol o amgylch adeiladau'r fferm?

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



Mae gan y fferm hon oddeutu 300 erw o dir – gallwch ddisgrifio'r ardal hon mewn perthynas â maint eich ysgol er mwyn rhoi rhyw syniad i'r disgyblion o raddfa'r fferm. Yn ogystal â chadw'r gwartheg, rhaid iddynt dyfu digon o wair o ansawdd i'w bwydo nhw.

- 5 Rhowch deitl i'ch map a'i gadw.

Rhan 2


Mae'r llaeth yn teithio i'r ffatri laeth leol yn Roundham. Rydych chi'n mynd i ddod o hyd i'r ffatri laeth a phlotio'r daith o'r fferm i'r ffatri laeth.

Tasgau

- 1 Agorwch fap newydd a'r tro hwn dewch o hyd i Fferm Broadstone gan ddefnyddio chwiliad cod post: TA18 7PN.



- 2 Ychwanegwch farciwr a'i labelu. Agorwch y bar offer nodiadau (*Annotations Toolbar*), dewiswch 'Add Marker' a chlicio ar y map. Yna, dewiswch 'Place Label' cyn dewis y testun lleiaf a chlicio ar ble y dymunwch iddo fynd. Ychwanegwch destun.




Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

- 3 Ailadroddwch i ddod o hyd i'r ffatri laeth a'i labelu. Y cod post yw TA18 8RR.
- 4 Defnyddiwch y bar graddfa i symud allan tan eich bod yn gallu gweld y fferm a'r ffatri laeth. Edrychwch ar y ffyrdd a phenderfynwch pa lwybr y byddech chi'n ei gymryd rhwng y ddau le petaech yn yrrwr lori laeth. Marciwch y llwybr ar y map.

Agorwch y bar offer nodiadau (*Annotations Toolbar*) a dewis 'Draw a Line'. Cliciwch ar y fferm a 'gyrrwch' y llinell ar hyd y ffordd gan glicio bob tro mae'r ffordd yn troi er mwyn i chi allu ei dilyn. Cliciwch ddwywaith cyn gorffen. Cyn tynnu eich llinell, dewiswch liw'r llinell y dymunwch ei defnyddio.



- 5 Rhowch deitl i'ch map a'i gadw.
- 6 Symudwch allan o'ch map er mwyn gweld sut mae maint y llwybr yn newid.

Rhan 3

O ble mae'r llaeth yn mynd ar ôl y ffatri laeth? Mae llaeth organig *Yeo Valley* yn teithio i nifer o siopau lleol a phell i ffwrdd, yn ogystal ag archfarchnadoedd ledled y DU. Er enghraifft, mae dros 200 o archfarchnadoedd yng nghadwyn *Waitrose* yn gwerthu llaeth *Yeo Valley*.

Tasgau

- 1 Chwiliwch am dref neu god post i ddod o hyd i bedair o'r nifer o archfarchnadoedd sy'n gwerthu llaeth organig *Yeo Valley* o Wlad yr Haf a'u marcio. Agorwch eich map o'r fferm a'r ffatri laeth ac ychwanegwch y lleoedd hyn ato. Nid oes angen i chi boeni am fod yn rhy gywir oherwydd bydd y map yn cael ei weld ar raddfa fach, sy'n golygu nad oes modd gweld gormod o fanylion. Cliciwch a thynnwch y marciwr i unrhyw le yn yr ardal chwilio cod post.
 - Efrog YO31 7UL
 - Newcastle NE99 1AB
 - Maidstone ME16 0PX
 - Crewkerne TA18 8DA
- 2 Rhowch deitl newydd i'r map a'i gadw.
- 3 Edrychwch ar y map a symud allan tan eich bod yn gallu gweld yr holl siopau rydych wedi'u hychwanegu. Beth mae hyn yn dweud wrthoch chi?

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Er ei bod yn anodd dilyn llaeth yn uniongyrchol o Broadstone Farm i siop, mae gan laeth Yeo Valley ardal ddsbarthu eang o'i phencadlys yng Ngwlad yr Haf.

Mynd ymhellach

- Edrychwch eto ar y map sy'n dangos Broadstone Farm a'r ardal gyfagos. Faint o ffermydd eraill allwch chi eu gweld ar y map? Lluniwch restr. Beth mae'r rhestr hon yn dweud wrthoch chi am yr ardal?
- Ewch i'ch siop neu archfarchnad leol er mwyn archwilio o ble mae'r llaeth yn dod?
- Oes yna unrhyw gynnyrch llaeth yn cael eu cynhyrchu yn eich ardal leol? Sut allwch chi ddod o hyd i'r wybodaeth hon?
- Trefnwch ymweliad â fferm leol i ddarganfod beth maen nhw'n ei wneud.
- Archwiliwch o ble mae bwydydd eraill yn dod. Pa fwyd yn eich blwch bwyd sy'n lleol? Pa fwyd sy'n Brydeinig? Pa fwyd sy'n dod o dramor?
- Bydd disgyblion yn mwynhau gwyllo hysbysebion *Yeo Valley*, sy'n dangos ffermwyr yn canu.

Dolenni

- Coombe Farm and Dairy <http://www.coombefarm.com/>
- Broadstone Farm <http://www.coombefarm.com/page/broadstone-farm/72/>
- Dairy Council <http://www.milk.co.uk/>
- Food a Fact of Life <http://www.foodafactoflife.org.uk/>
- Organic Dairy Farming <http://www.teach-organic.org.uk/>
- This is Dairy Farming <http://www.thisisdairyfarming.com/>
- Yeo Valley adverts <http://www.yeovalleyorganic.co.uk/our-tv-ads>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013



Trwyddedir y gwaith hwn yn unol â Thrwydded Anfasnachol – Priodoliad Creadigol Cyffredin.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Bwyd sy'n cael ei dyfu yn fy ardal leol - gweithgaredd

Trefnwch ymweliad â'ch siop fferm neu farchnad ffermwyr agosaf i ddarganfod pa fwyd maen nhw'n ei werthu sy'n cael ei dyfu a'i werthu'n lleol i chi. Mae'n bosibl i chi edrych ar eich rhanbarth, eich gwlad neu hyd yn oed radiws, er enghraifft o fewn 30km i'ch cartref.

Defnyddiwch y daflen hon i'ch helpu chi gyda'ch gwaith ditectif cyn mapio eich canfyddiadau. Yna, dyfeisiwch allwedd i'ch helpu chi i gategoreiddio'r bwyd: er enghraifft llysiau, cynnyrch llaeth, cig, grawn neu ffrwythau.

Bwyd sy'n cael ei dyfu a'i werthu'n lleol (rhestrwch yr ardal, e.e. eich gwlad, rhanbarth neu radiws penodol)

Enw'r bwyd	Math o fwyd	Lle caiff y bwyd ei dyfu	Man gwerthu
Er enghraifft, llaeth	Cynnyrch llaeth	Hill Farm	Marchnad Ffermwyr Aberhonddu

Beth ydych chi wedi ei ddysgu o hyn?
